

Beth yw'r Gwasanaeth Cyngor Hyfywedd Datblygu?

Mae'r gwasanaeth hwn ar waith i drafod hyfywedd cynllun datblygu arfaethedig a rhoi ymateb ffurfiol i ddatblygwyr yn manylu ar lefel yr ymrwymadau cynllunio y byddai eu hangen i gefnogi cais cynllunio yn unol â'r [Canllawiau Cynllunio Atodol Ymrwymadau Cynllunio](#) (e.e. Tai Fforddiadwy, Mannau Agored, Addysg, ac ati) a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn defnyddio Pecyn Arfarnu Hyfywedd Datblygiad cydnabyddedig i asesu hyfywedd cynlluniau gan ystyried gwahanol gostau a referniw. Nid yw'n orfodol i ddatblygwyr ddefnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd y gwasanaeth yn creu mwy o sicrwydd i ddatblygwyr wrth fwrw ymlaen â chynlluniau a cheisiadau cynllunio.

Nodwch nad yw'r gwasanaeth yno i ddarparu cyngor cyn gwneud cais cynllunio. Gellir cael cyngor cyn gwneud cais cynllunio drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu. Dim ond hyfywedd datblygu ac ymrwymadau chynllunio fydd yn cael eu trafod a darperir ymateb ffurfiol gan ddefnyddio gwasanaeth cynghori Hyfywedd Datblygu

Pam defnyddio'r gwasanaeth Cyngor Hyfywedd Datblygu?

Mae nifer o fanteision i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

- Rhoi sicrwydd wrth fwrw ymlaen â cheisiadau cynllunio
- Mae'n defnyddio pecyn gwerthuso hyfywedd datblygu cydnabyddedig i asesu cynlluniau
- Nodi'r prif faterion hyfywedd datblygu
- Deall eich problemau hyfywedd datblygu a'r effeithiau ar ymrwymadau cynllunio
- Cyfrifo pa ymrwymadau cynllunio fydd eu hangen ar ôl deall eich problemau hyfywedd
- Dangos pa dystiolaeth o angen sy'n cael ei gasglu gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol i gefnogi'r ymrwymadau cynllunio sydd eu hangen
- Nodi unrhyw wybodaeth hyfywedd datblygu y byddwch ei hangen wrth i chi wneud eich cais cynllunio
- Mae'n rhoi ymateb ffurfiol ar gyfer eich cynllun arfaethedig, sydd yn ei dro'n rhoi mwy o sicrwydd wrth lunio cais cynllunio ac yn osgoi oedi pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno.
- Mae'n cynnwys Swyddogion arweiniol allweddol mewn cyfarfod penodol i drafod materion hyfywedd ac ymrwymadau cynllunio.

Pa gynlluniau fyddai'n elwa o ddefnyddio'r Gwasanaeth?

Byddai pob cynllun preswyl a chynlluniau defnydd cymysg sy'n cynnwys elfen breswyl (e.e. defnydd cymysg preswyl a chyflogaeth) yn elwa ar y gwasanaeth. Bydd cynlluniau o'r fath yn amodol ar ymrwymadau cynllunio a gwerthusiad hyfywedd posibl pan fydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno.

Pa gynlluniau sydd wedi eu heithrio o brofion hyfywedd?

Rhoddir manylion pob eithriad rhag profion hyfywedd ar y rhestr eithriadau.

Sut mae gwneud cais i ddefnyddio'r gwasanaeth?

Cam 1: Llenwi'r Ffurflen Gais am Gyngor Hyfywedd Datblygu

Cam 2: Llenwi'r Ffurflen Hyfywedd Datblygu

Cam 3: Postio eich cais a'r ffi gywir at y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN. Gallwch anfon ffurflenni cais ar e-bost i GPCS@conwy.gov.uk ond ni fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd hyd nes derbyn y ffi berthnasol.

Dylech gynnwys digon o wybodaeth i gefnogi eich cais. Cynhyrchwyd nodyn canllawiau i helpu llenwi'r Ffurflen Hyfywedd Datblygu.

Ein Haddewid Wrth Defnyddio'r Gwasanaeth

Wrth ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyngor Hyfywedd Datblygu Cyn Gwneud Cais byddwn yn:

- Gofyn am Gadarnhad Ysgrifenedig yn Unig: Yn cydnabod derbyn eich cais cyntaf o fewn 5 diwrnod gwaith ac yn ymateb drwy lythyr ffurfiol o fewn 15 diwrnod gwaith (yn amodol ar unrhyw geisiadau gan y Cyngor am fwy o wybodaeth)
- Ceisiadau am gyfarfod a chadarnhad ysgrifenedig: Ymateb i'ch cais cychwynnol o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod a/neu geisiadau am ragor o wybodaeth. Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cyngor yn darparu cadarnhad ysgrifenedig ffurfiol o'r canlyniadau o fewn 10 diwrnod gwaith.

Faint yw cost y gwasanaeth?

Mae manylion am y costau ar gyfer defnyddio'r Gwasanaeth Hyfywedd Datblygu cyn ymgeisio i'w gweld yn yr Atodlen Daliadau isod.

Ni chodir unrhyw dâl am asesiadau hyfywedd yr ymgwymerir â hwy fel rhan o gais cynllunio. Noder – pan fydd Pro-forma neu wybodaeth hyfywedd arall yn cael ei gyflwyno i gefnogi cais cynllunio, y bydd y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd ynghyd â dogfennau eraill y cais.